

# ADDYSGU MATERION DADLEUOL

Mae'r rhan fwyaf o addysgu'n ymwneud â meysydd a ystyrir i fod yn 'hysbys' gyda chwestiynau caeedig. Mae addysgu hefyd yn ymdrin â meysydd lle mae llawer o wahanol farnau, mae'n ysgogi emosiynau cymhleth ac yn arwain at drafodaethau anodd. Maent yn ddadleuol ac maent angen ystyriaeth arbennig.

## Addysgu am y gosb eithaf

Mae hawliau dynol yn egwyddorion craidd, moesol ac yn offerynnau cyfreithiol yn y rhan fwyaf o gymdeithasau. Yn waelodol i hawliau dynol mae egwyddorion cydraddoldeb, urddas a pharch am yr unigolyn yr ystyrir yn gyffredinol nad ydynt yn ddadleuol. Fodd bynnag, mae rhai agweddau ar hawliau dynol yn ddadleuol a chânt eu trafod yn rhydd. Mae barnau'n wahanol, fodd bynnag, ar sut y dylid cynnal hawliau dynol, pryd mae'n dderbyniol cyfyngu amynt a sut i gydbwyso hawliau sy'n gwrthdaro.

Efallai bydd gwladwriaethau sy'n ddiddymwyr yn honni bod y gosb eithaf yn mynd yn groes i'r hawl i fywyd a'r hawl i beidio â chael eich arteithio, neu'ch gwneud yn destun triniaeth greulon, annynol a diraddiol, fel yr amlinellir yn y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol (UDHR) a chyfreithiau hawliau dynol rhyngwladol dilynol.<sup>1</sup> Mae'r hawl i beidio â chael eich arteithio'n hawl absoliwt ac ni ddylid byth tynnu oddi wrtho. Yn ôl y Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Sifil a Gwleidyddol (ICCPR), gellir cyfyngu ar yr hawl i fyw o dan rai amgylchiadau a ddiffinnir yn arbennig. Efallai bydd gwladwriaethau sy'n gadwyr yn anghytuno bod y gosb eithaf yn golygu arteithio, a dadlau ei fod yn rhesymol i gymryd bywyd rhywun os ydynt wedi cyflawni rhai troseddau penodol. Dyma lle mae'r dadl yn codi o ran hawliau dynol. Mae nifer o ddadleuon moesol, cyfreithiol a chrefyddol o gwmpas y gosb eithaf. Gweler Gwersi 1 a 2 i gael mwy o fanylion.

Mae defnyddio'r gosb eithaf ar bobl o dan 18 oed yn anghyfreithlon<sup>2</sup> a gellir ei addysgu fel nad yw'n ddadleuol ei fod yn anghywir. Dylai'r athro/athrawes deimlo eu bod yn gallu herio neu wrthwynebu unrhyw un sy'n dadlau o'i blaid.

Mae Amnest Rhyngwladol yn gwrthwynebu'r gosb eithaf mewn pob amgylchiad. Fodd bynnag rydym yn cydnabod bod y mater yn ddadleuol a dylid ei addysgu felly. Mae'r pecyn hwn yn ceisio sicrhau cydbwysedd ac y caiff ystod o wahanol ddadleuon eu cyflwyno.

1 Mae'r hawl i fyw (Erthygl 3) yn Y Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Sifil a Gwleidyddol (ICCPR). Mae'r hawl i beidio â chael eich arteithio (Erthygl 5) yn yr ICCPR a cheir manylion pellach yn y Cyfamod yn erbyn Arteithio. Am fwy o wybodaeth ar gyfraith hawliau dynol rhyngwladol, gw. <http://www2.ohchr.org> a <http://www.hrweb.org/legal/undocs.html>

2 Y Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Sifil a Gwleidyddol (Erthygl 6)

## Nod y deunyddiau

Mae'r deunyddiau yn y pecyn hwn yn rhoi'r cyfle i ddisgyblion archwilio materion allweddol ynglŷn â'r gosb eithaf a'u galluogi i archwilio eu gwerthoedd wrth iddynt wrando ar farnau pobl eraill a'u parchu. Mae pwyslais ar drafod hefyd yn helpu pobl ifanc i ddatblygu sgiliau megis holi, meddwl yn feirniadol, ymresymu a thrafod.

## Dulliau addysgu

Mae'r pecyn hwn yn defnyddio nifer o dulliau i archwilio'r gosb eithaf. Mae astudiaethau achos yn codi ymwybyddiaeth o'r mater ac yn annog disgyblion i feddwl am y canlyniadau go iawn. Mae drama'n gynnwysedig er mwyn caniatáu i ddisgyblion feddwl am rai o'r materion mewn lleoliad diogel, pell. Cynigir rhywfaint o ganllawiau cyffredinol ar gyfer defnyddio'r deunyddiau isod:

### • Rheolau Sylfaenol

Mae gosod rheolau sylfaenol yn ffordd ddefnyddiol o sicrhau trafodaeth yn yr ystafell ddosbarth y gellir ei rheoli. Gellir defnyddio egwyddorion hawliau dynol fel fframwaith ar gyfer y rheolau sylfaenol, ee dylid annog disgyblion i gydnabod yr hawl i ryddid mynegiant sydd gan *bob* aelod o'r dosbarth, ac ni ddylai'r disgyblion wahaniaethu, drwy gyfeirio at unigolion neu grwpiau o bobl fel rhai sy'n addas ar gyfer y gosb eithaf, hyd yn oed fel jôc.

### • Barn yr athro

Nid yw mater y gosb eithaf wedi'i gyfyngu'n benodol gan dadogaeth wleidyddol; mae hyn yn gwneud mynegi barn bersonol yn fater llai sensitif. Fodd bynnag, efallai bydd hyn yn fwy priodol ar ddiwedd yr addysgu er mwyn osgoi trafodaeth dueddol. Gweler y canllawiau cyffredinol ar Addysgu Materion Dadleuol ar y maes hwn ar y DVD.

### • Trafodaeth ffug y Cenedloedd Unedig

Yng ngwers 2, trafodaeth ffug gan y Cenedloedd Unedig, rhoddir ystod o rolau i'r disgyblion sydd â barnau penodol i'w hamddiffyn, nid o reidrydd eu barnau eu hunain. Cynghorir i'r disgyblion beidio â cheisio defnyddio acenion gwahanol wrth ymgymryd â'u rolau – gall wrthdynnu o gynnwys yr araith a pheri tramgwydd. Pan fydd y sesiwn chwarae rôl wedi gorffen, gadewch i'r disgyblion drafod/fod yn feirniadol o'u rolau a'u credau. Bydd 'dod allan o rôl' fel hyn yn helpu'r disgyblion i ddatgysylltu o farnau'r cymeriad yn y sesiwn chwarae rôl.

### • Defnyddio deunyddiau pwerus

Cynlluniwyd y deunyddiau i fod yn addas ar gyfer

disgyblion 14 oed ac yn hŷn. Gall disgyblion gael eu heffeithio'n emosiynol gan astudiaethau achos bywyd go iawn, yn enwedig wrth ddefnyddio naratif ysgogol megis fideo. Efallai byddwch yn ei weld yn adeiladol i rannu'r dosbarth yn barau neu'n grwpiau bach. Bydd hyn yn galluogi disgyblion llai hyderus i fyfyr, rhannu syniadau ac ail-gydbwysu mewn amgylchedd mwy diogel.

#### • **Tueddiad**

Yn y DU mae fframwaith deddfwriaethol sy'n gofyn i athrawon geisio sicrhau cydbwysedd wrth addysgu materion dadleuol. Mae mynd ar drywydd cydbwysedd yn egwyddor ddefnyddiol i'ch arwain, hyd yn oed os yw cydbwysedd perffaith yn anodd neu hyd yn oed yn amhosibl ei gyflawni.

Nod y deunyddiau yn y pecyn yw adlewyrchu ystod o gredau ar fater y gosb eithaf. Cafodd safbwyntiau'r gwledydd eu hymchwilio a gwnaed ymdrech i adlewyrchu'r rhain yn deg. Mae'r deunyddiau'n ceisio cyflwyno safbwyntiau nad ydynt yn rhai gorllewinol ar y pwnc. Dylai'r hwylusydd warchod yn erbyn ffyrdd y gallai'r dysgu fynd yn ormodol o anghytwys - efallai trwy ystyried aseinio safbwyntiau gwledydd i'r disgyblion, neu drwy annog disgyblion a/neu wledydd â gwahanol farnau i gael eu clywed.

#### • **Cred Grefyddol**

Mae nifer o'r gwladwriaethau sy'n defnyddio'r gosb eithaf yn wledydd lle mai Islam yw crefydd y mwyafrif. Mae ysgolheigion Islamaidd yn aml yn defnyddio dehongliad ysgrythurol i gefnogi cadw'r gosb eithaf er bod maddeuant yn thema allweddol yn y Qur'an ar yr un pryd. Dylai'r athro geisio sicrhau nad yw trafodaeth y disgyblion yn mynd yn drafodaeth ddeubegwn rhwng safbwyntiau Islamaidd a rhai nad ydynt yn Islamaidd, oherwydd bod nifer o wledydd sydd â phoblogaethau Mwslimaidd lleiafrifol ac sy'n cadw'r gosb eithaf (UDA, China), yn ogystal â gwledydd sydd â phoblogaethau Mwslimaidd mwyafrifol sydd heb y gosb eithaf (Twrci, Albania), neu sy'n cadw'r gosb eithaf ond nid ydynt yn ei gorfodi bellach (Algeria).

#### • **Barn/sensitifrwydd y disgyblion**

Yng nghyd-destun y DU, mae'r gosb eithaf yn annhebygol o fod yn fater sydd wedi effeithio ar deuluoedd y disgyblion yn bersonol. Fodd bynnag, efallai bydd dosbarthiadau'n cynnwys disgyblion sy'n ffoaduriaid a disgyblion sydd â chysylltiadau teuluol â gwledydd sydd â'r gosb eithaf. Os felly, bydd gofyn am sensitifrwydd.



**'Trwy ymchwilio i'r gosb eithaf, mae disgyblion...yn ymchwilio i ystyr hawliau dynol ac mae ganddynt fforwm er mwyn trafod arteithio. Ai ymarfer arteithio meddyliol neu gorfforol yw'r gosb eithaf?'**

**Y Chwaer Helen Prejean, sy'n ymddangos mewn clip ffilm yn y pecyn hwn**